COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL
Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

Cadeirydd:
**Dr Aled Eirug**
Prif Weithredwr:
**Dr Ioan Matthews**

**Ffôn:** 01267 610400
**E-bost:** gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk

Buffy Williams AS
Cadeirydd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru

Cyfeiriad e-bost: SeneddPlant@Senedd.Cymru

4 Rhagfyr 2024

Annwyl Gadeirydd,

Cyf: Bil y Gymraeg ac Addysg – tystiolaeth ychwanegol gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Fel y gwyddoch, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg) yn cefnogi nodau ac amcanion Bil y Gymraeg ac Addysg ac wedi mynegi hynny'n glir yn ein tystiolaeth yn ystod Cyfnod 1 o'r broses graffu.

Mae nod y Bil o sicrhau bod pawb, dros gyfnod, yn gadael y sector orfodol yng Nghymru yn siaradwyr Cymraeg annibynnol (lefel B2) i'w groesawu'n fawr, ac yn gosod her penodol i'r sector drydyddol sicrhau bod llwybrau dilyniant addas mewn lle i ddysgwyr barhau i gynnal, defnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg ar hyd eu cyfnod yn y sector drydyddol cyn ymuno â'r byd gwaith.

Rydym yn croesawu'n fawr sylwadau Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ar 24 Hydref ynghylch addysg drydyddol, a'i

barodrwydd i edrych eto ar yr elfennau o'r Bil sy'n ymwneud â'r sector hon, sef prif faes diddordeb y Coleg. Roedd ei sylwadau yn adeiladol, a'i barodrwydd i gynnig yr eglurder sydd ei angen ar wyneb y Bil ac yn y Memorandwm Esboniadol, i'w croesawu yn fawr.

Wrth i'r pwyllgor lunio adroddiad ar Gyfnod 1 y Bil, ysgrifennwn atoch i gynnig tystiolaeth ychwanegol ynghylch dau fater penodol a godwyd fel rhan o'n tystiolaeth ysgrifenedig a llafar sef, y Gymraeg fel pwnc a'r gweithlu addysg.

**Y Gymraeg fel pwnc**

Gan na chafwyd y cyfle yn ystod ein sesiwn dystiolaeth i'r pwyllgor ar 17 Hydref i fanylu ar yr agwedd hon o'r Bil, amlinellwn yn y llythyr hwn pam fod y Coleg yn credu bod gwarchod y Gymraeg fel pwnc (e.e. TGAU, Safon Uwch, gradd yn y Gymraeg) yn fater mor bwysig ac yn un sy'n teilyngu sylw ar wyneb y Bil.

Mae angen sylw penodol yn y Fframwaith Cenedlaethol i'r Gymraeg fel pwnc, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sydd tu hwnt i oedran ysgol gorfodol. Am nad oes modd gwahaniaethu'r Gymraeg fel pwnc oddi wrth y categorïau a restrir yn adran 35(a), credwn bod perygl o golli cyfleoedd pwysig i ddiogelu a datblygu'r pwnc bregus a hanfodol hwn.

Er bod y Gymraeg yn rhan fandadol o'r cwricwlwm ar gyfer pob blwyddyn ysgol yn y cyfnod statudol gan gynnwys Blynyddoedd 10 ac 11, mae patrwm y ddarpariaeth ôl-16 yn eithriadol o fregus. Gwyddom y gall fod yn heriol darbwyllo dysgwyr i astudio'r pwnc, a hynny am amryw o resymau; ond hyd yn oed pan mae grŵp o ddysgwyr yn awyddus i astudio UG neu Safon Uwch, nid yw'r ddarpariaeth o reidrwydd ar gael. Tra bod e-sgol yn opsiwn amgen mewn rhai achosion, y gwir amdani yw ein bod colli dysgwyr (Iaith Gyntaf ac Ail Iaith) bob blwyddyn mewn pwnc na all fforddio eu colli (gweler Atodiad 1 islaw).

Addysg yn y Gymraeg fel pwnc yw'r prif fodd o greu defnyddwyr hyfedr (C1 a C2). Yn ymarferol, dim ond drwy ddiogelu a hybu Safon Uwch Cymraeg (Iaith Gyntaf ac Ail Iaith) mae creu gweithluoedd sylweddol sydd â sgiliau uwch yn y Gymraeg, yn enwedig athrawon all ddysgu Cymraeg neu drwy

gyfrwng y Gymraeg a thiwtoriaid Cymraeg. Mae cynyddu'r gweithluoedd hyn yn allweddol er mwyn cyflawni amcanion y Bil.

Mae'r heriau sy'n wynebu'r Gymraeg fel pwnc yn gymhleth ac yn ymwneud â nifer o ffactorau. Nid ydym yn awgrymu y gall y Bil ei hun fynd i'r afael â'r rhain i gyd, ond yn hytrach, rydym o'r farn bod manteision sylweddol i gyfeirio ar wyneb y Bil at y Gymraeg fel pwnc fel un o'r meysydd y bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw iddynt yn y Fframwaith Cenedlaethol.

Awgrymwn fod tri opsiwn mewn perthynas â gwelliannau posib fyddai'n gwireddu'r nod polisi o warchod a hybu'r Gymraeg fel pwnc sef:

<u>Opsiwn 1:</u> Gellid addasu is-adran 23(1) drwy ychwanegu cymal (d) newydd:

> <u>***"(d) mewn perthynas â'r Gymraeg fel pwnc, yn cynnwys ar gyfer dibenion cymwysterau TGAU a Safon Uwch"***</u>

<u>Opsiwn 2:</u> Gellid ychwanegu is-adran newydd at adran 23 yn nodi:

> "23
>
> (...)
>
> <u>**(X)** ***Mae addysg Gymraeg yn adran 23(1) yn cynnwys addysgu'r Gymraeg fel pwnc yn cynnwys ar gyfer dibenion cymwysterau TGAU a Safon Uwch.***</u>

<u>Opsiwn 3:</u> Gellid diwygio'r diffiniad o "addysg Gymraeg" ymhellach yn adran 35(a) y Bil fel a ganlyn:

> "35. Dehongli
>
> Yn y Rhan hon –
>
> a. ystyr "addysg Gymraeg" yw –
>
> i. addysgu'r Gymraeg,
>
> ii. addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg,
>
> *iii.* <u>***addysgu Cymraeg fel pwnc, yn cynnwys ar gyfer dibenion cymwysterau TGAU a Safon Uwch.***</u>
>
> mewn ysgol, i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol <u>***neu o fewn addysg drydyddol***</u>" ;

**Y gweithlu addysg**

Mae'r Coleg, fel nifer sylweddol o randdeiliaid eraill sydd wedi rhoi tystiolaeth i'r pwyllgor yn ystod Cyfnod 1, wedi mynegi pryder ynghylch dibyniaeth y Bil ar weithlu addysg â sgiliau digonol yn y Gymraeg i weithredu'r cynigion.

Rydym yn cydnabod bod y Bil yn darparu ar gyfer gweithredu mewn perthynas â'r gweithlu addysg gan awdurdodau lleol (nodi camau i sicrhau bod digon o ymarferwyr addysg yn gweithio yn yr ardal), a gan yr Athrofa (mewn perthynas â gwella dulliau addysgu'r Gymraeg, a darparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg a gwella lefelau gallu yn y Gymraeg).

Fodd bynnag, mae'r Coleg o'r farn nad yw hyn yn mynd i'r afael â darn hanfodol o'r pictiwr, sef darpariaeth Addysg Gychwynnol Athrawon a'r angen i sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n cael ei chynllunio a'i darparu yn y modd mwyaf strategol posib o safbwynt cenedlaethol.

Am y rheswm honno, rydym yn dal i fod yn gefnogol i gynnig Comisiynydd y Gymraeg i "osod dyletswydd yn y Bil ar Weinidogion Cymru i lunio a chyhoeddi Cynllun Gweithlu Addysg Gymraeg fel rhan o'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg a Dysgu Cymraeg."[1]

Tra bod y Cynllun Gweithlu Cymraeg mewn Addysg presennol wedi tynnu nifer o linynnau a rhanddeiliaid ynghyd o ran cynllunio'r gweithlu addysg Cymraeg, nid yw, yn ein barn ni, yn mynd yn ddigon pell ac nid oes ganddo statws digonol ymhlith rhanddeiliaid i sicrhau'r cynnydd strategol sydd ei angen.

Mae ein cefnogaeth i'r Bil yn gadarn ac felly bwriad y llythyr hwn ydy sicrhau ei fod yn cymryd pob cyfle posib i wireddu amcanion y Llywodraeth.  Mae deddfu yn cynnig cyfle euraid i sicrhau bod y cynnydd a ragwelwyd mewn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, a'r Gymraeg fel pwnc, yn digwydd yn ddi-dor ar draws y system addysg gyfan. Mae'r Coleg yn awyddus iawn i chwarae rôl allweddol yn gwireddu'r weledigaeth hon.

Hyderwn y byddwch fel pwyllgor yn ystyried ein hawgrymiadau yn y llythyr hwn wrth i chi lunio'ch adroddiad ar Gyfnod 1 y Bil. Os hoffech ragor o

---

[1] https://busnes.senedd.cymru/documents/s153711/Papur%201%20Comisiynydd%20y%20Gymraeg.pdf

wybodaeth peidiwch oedi rhag cysylltu â Gwenllian Griffiths, Cyfarwyddwr Polisi, Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Coleg drwy e-bostio g.griffiths@colegcymraeg.ac.uk.

Yn gywir,



**Dr Ioan Matthews**

**Prif Weithredwr**

**Atodiad 1**

| Blwyddyn | Cymraeg iaith gyntaf | Cymraeg ail Iaith |
|---|---|---|
| 2008/09 | 304 | 489 |
| 2009/10 | 318 | 410 |
| 2010/11 | 302 | 410 |
| 2011/12 | 257 | 400 |
| 2012/13 | 287 | 356 |
| 2013/14 | 252 | 312 |
| 2014/15 | 280 | 272 |
| 2015/16 | 246 | 245 |
| 2016/17 | 214 | 242 |
| 2017/18 | 231 | 216 |
| 2018/19 | 256 | 164 |
| 2019/20 | 244 | 158 |
| 2020/21 | 231 | 195 |
| 2021/22 | 206 | 160 |
| 2022/23 | 176 | 112 |

**Tabl 1:** Nifer yr ymgeisiadau ar gyfer Safon Uwch Cymraeg a Safon Uwch Cymraeg ail iaith (disgyblion oed 17 yn unig) - Ymgeisiadau a chanlyniadau lefel A (disgyblion oed 17 yn unig) fesul grŵp pwnc (llyw.cymru)